# Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

# Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

**CYFLWYNIAD**

1.1 Nodau Polisi ADY Ysgol y Dderwen:

• I adnabod disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol cyn gynted â phosibl;

• Wedi adnabod yr angen, i ddarparu cymorth addas cyn gynted â phosibl;

• I fonitro'r cymorth sy'n cael ei ddarparu a'i gymhwyso os bydd angen;

• I gynnig i ddisgyblion sydd ag ADY addysg sydd mor llawn a chytbwys â phosibl ac i'w galluogi i gyflawni gofynion y cwricwlwm hyd eithaf eu gallu;

• I ddyrchafu trefniant cydweithredol tu fewn yr ysgol mae'r CADY yn yr ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth, athrawon dosbarth, y rhieni/warchodwyr, asiantaethau allanol a staff cynorthwyol yr ysgol

• I hybu perthynas positif gyda rhieni/warchodwyr sydd â phlant sydd ag ADY ac i weithio mewn partneriaeth â nhw trwy gynnal cyfarfodydd Cynllunio Person Canolog (CPC) a datblygu Cynlluniau Datblygu Unigol yn sgîl y cyfarfodydd hyn;

• I ofyn am gyngor oddi wrth asiantaethau ac arbenigwyr tu allan i'r ysgol, lle mae'n addas i wneud hynny, ac i ddefnyddio unrhyw gyngor a chymorth oddi wrthynt mewn ffordd effeithiol.

Wrth weithredu'r nodau ADY mae Ysgol y Dderwen yn:

➢ Sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys.

➢ Darparu cwricwlwm gwahaniaethol sy'n briodol i anghenion a gallu'r unigolyn.

➢ Sicrhau bod yr holl ddisgyblion sydd angen darpariaeth ychwanegol yn cael eu hadnabod cyn gynted â phosibl yn eu gyrfa ysgol.

➢ Sicrhau bod disgyblion ADY yn cymryd rhan mor llawn â phosibl yn holl weithgareddau'r ysgol.

➢ Sicrhau bod rhieni disgyblion ADY yn cael eu hysbysu'n llawn am gynnydd a chyrhaeddiad eu plentyn.

➢ Sicrhau bod disgyblion ADY yn cael eu cynnwys, lle bo hynny'n ymarferol, mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu darpariaeth yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod y bydd gan lawer o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ar ryw adeg yn ystod eu bywyd ysgol. Wrth weithredu'r polisi hwn, credwn y bydd disgyblion yn cael cymorth i oresgyn eu hanawsterau.

Tra bod llawer o ffactorau yn cyfrannu at yr ystod o anawsterau a brofir gan rai plant, credwn y gellir gwneud llawer i'w goresgyn wrth i rieni, athrawon, cynorthwywyr cymorth a disgyblion gydweithio.

1.2

Mae'r ysgol yn ffafrio egwyddorion cynhwysol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n darparu dau hawl:-

a) Addysg o ansawdd i bob disgybl

b) Cyfle cyfartal addysgol i bob disgybl;

➢ Yr hawl i gael addysg gyda chyfoedion

➢ Addasu'r hawl i addysg i gwrdd ag anghenion unigol

➢ Yr hawl i gael eich cyfraniad yn cael ei ystyried ar sail gyfartal ag eraill.

1.3: Yn ôl Cod ADY Cymru 2021:

1 ) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

(2) Mae gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd— (a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o blant eraill o'r un oedran, neu (b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag gwneud defnydd o gyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o'r math a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

Efallai y bydd angen cymorth anghenion dysgu ychwanegol ar blant a phobl ifanc naill ai drwy gydol, neu ar unrhyw adeg yn ystod eu gyrfa ysgol. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn ystyried math a graddau'r anhawster a brofir gan y plentyn.

Ni ddylid ystyried bod gan blant anawsterau dysgu dim ond oherwydd bod eu hiaith, neu ffurf iaith y cartref, yn wahanol i'r iaith y cânt eu haddysgu ynddi.

Bydd Ysgol y Dderwen yn rhoi sylw dyledus i God Ymarfer ADY Cymru 2021 (y ddogfen swyddogol sy'n nodi sut y dylai ysgolion fynd i'r afael ag anghenion addysgol ychwanegol) wrth gyflawni ein dyletswyddau tuag at bob disgybl ag ADY a sicrhau bod rhieni'n cael gwybod pan fydd darpariaeth ADY ( ALP) yn cael ei wneud ar gyfer eu plentyn.

Byddwn yn dilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru a thîm ADY yr Awdurdod Lleol o ran gweithredu'r system ADY newydd ar gyfer y carfannau rhagnodedig o ddysgwyr.

## 2 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

2.1

**Y CYDLYNYDD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Mae'r Cydlynydd ADY yn chwarae rhan hollbwysig yn narpariaeth ADY yr ysgol. Mae hyn yn golygu gweithio gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol i benderfynu ar ddatblygiad strategol y polisi. Mae cyfrifoldebau eraill yn cynnwys:

➢ Goruchwylio gweithrediad y polisi o ddydd i ddydd

➢ Cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY

➢ Cydgysylltu a rhoi cyngor i gyd-athrawon

➢ Rheoli Cynorthwywyr Cefnogi Dysgu

➢ Goruchwylio cofnodion disgyblion

➢ Cydgysylltu â rhieni

➢ Gwneud cyfraniad i HMS

➢ Cydgysylltu ag asiantaethau allanol; Gwasanaethau cymorth AALl, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gyrfaoedd a chyrff gwirfoddol

Er mwyn cydlynu'n effeithiol, mae staff Ysgol y Dderwen yn ymwybodol o'r canlynol:

➢ Rolau'r cyfranogwyr

➢ Y gweithdrefnau i'w dilyn

➢ Y cyfrifoldeb sydd gan bob athro i ddarparu ar gyfer disgyblion ADY

➢ Yr ymrwymiad sydd ei angen gan staff i hysbysu'r Cydlynydd ADY yn dda am gynnydd disgyblion

➢ Mecanweithiau sy'n bodoli i alluogi athrawon i gael mynediad at wybodaeth am ddisgyblion ADY

➢ Mecanweithiau sy'n bodoli i rybuddio'r Cydlynydd ADY am 'lefelau o bryder' o'r fath

➢ Y drefn ar gyfer hysbysu rhieni o'r pryder hwn a'r ddarpariaeth ADY dilynol

➢ Yn ogystal, darperir arweiniad clir i rieni ar y modd y gallant gyfrannu at gydlynu, a sut y gallant gyfathrebu gwybodaeth ychwanegol pan fo angen.

2.2

**Y CORFF LLYWODRAETHOL**

Mae cyfrifoldebau'r Corff Llywodraethol tuag at ddisgyblion sydd ag ADY yn cynnwys:

➢ Sicrhau darpariaeth o safon uchel ar gyfer disgyblion ADY

➢ Sicrhau bod disgyblion ADY yn cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r ysgol

➢ Ystyried y Côd Ymarfer wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn

➢ Cymryd rhan lawn mewn datblygu, monitro ac adolygu

➢ Adrodd yn flynyddol i rieni ar Bolisi ADY yr ysgol gan gynnwys dyrannu adnoddau o gyllideb ddatganoledig/dirprwyedig yr ysgolion

2.3

**SWYDDOGAETH YR ATHRO PWNC**

Mae Cod ADY Cymru 2021 yn cydnabod yn glir y pwysigrwydd a roddir i'r athro.

Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys:

➢ Bod yn ymwybodol o weithdrefnau'r ysgol ar gyfer adnabod ac asesu, a darpariaeth ddilynol ar gyfer disgyblion ADY.

➢ Cydweithio gyda'r Cydlynydd ADY i benderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd i gynorthwyo'r disgybl i symud ymlaen

➢ Gweithio gyda'r Cydlynydd ADY i gasglu'r holl wybodaeth sydd ar gael am y disgybl

➢ Mewn cydweithrediad â'r Cydlynydd ADY, datblygu "CDU" ar gyfer disgyblion ADY.

➢ Gweithio gyda disgyblion ADY yn ddyddiol i gyflwyno targedau CDU o fewn cynllunio gwahaniaethol

➢ Datblygu perthynas adeiladol gyda rhieni

➢ Cymryd rhan yn natblygiad polisi ADY yr ysgol

2.4

**RÔL Y PENNAETH**

Mae cyfrifoldebau'r Pennaeth yn cynnwys:

➢ Rheolaeth o ddydd i ddydd ar bob agwedd o'r ysgol gan gynnwys y ddarpariaeth ADY

➢ Hysbysu'r Corff Llywodraethol am ADY o fewn yr ysgol

➢ Gweithio'n agos gyda'r tîm ADY

➢ Hysbysu rhieni bod darpariaeth ADY wedi ei wneud ar gyfer eu plentyn

➢ Sicrhau bod gan yr ysgol strategaethau clir a hyblyg ar gyfer gweithio gyda rhieni a bod y strategaethau hyn yn annog cyfranogiad yn addysg eu plentyn.

2.5

**CYFRIFOLDEB YSGOL GYFAN**

Mae addysgu disgyblion ADY yn gyfrifoldeb ysgol gyfan. Mae gwaith athrawon yn cynnwys cylch parhaus o gynllunio, addysgu ac asesu, gan ystyried y gwahaniaethau yng ngalluoedd, doniau a diddordebau disgyblion. Efallai y bydd angen lefelau uwch o ddarpariaeth a chymorth ar rai disgyblion.

**3 CYDLYNU A RHEOLI DARPARIAETH**

**Mae holl staff Ysgol y Dderwen yn gyfrifol am anghenion disgyblion sydd ag anawsterau dysgu**.

Mae'r cyfrifoldeb yn cael ei gydgysylltu gan y Cydlynydd ADY. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cydlynydd ADY yn:

➢ Cydlynu datblygiad a gweithredu polisi ADY er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth addysgu a dysgu ar gyfer disgyblion ag ADY

➢ Datblygu, gyda chefnogaeth y Pennaeth a chydweithwyr, ffyrdd o wneud y cwricwlwm yn hygyrch i blant sydd ag ADY trwy addysgu effeithiol a gosod targedau.

➢ Cefnogi'r holl staff sy'n gweithio gyda disgyblion sydd ag ADY trwy sicrhau bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol i sicrhau gwelliannau mewn addysgu a dysgu.

**GWEITHREDU'R POLISI ADY**

Corff Llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau gweithrediad y Polisi ADY. Mae'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Cydlynydd ADY ac Uwch Dîm Rheoli'r ysgol.

Er mwyn sicrhau y caiff ei roi ar waith, cedwir at yr egwyddorion canlynol:

4.1 Bydd gan bob adran gyfrifoldeb llawn am y cynlluniau gwaith a'r rhaglenni astudio ar gyfer yr holl ystod gallu. Dylai pob cynllun gwaith ddangos gwahaniaethu fel y bo'n briodol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhan annatod o'r cwricwlwm a chynllunio dosbarth ac nid yn atodiad iddo.

4.2 Defnyddir system hyblyg o gynhwysiant, lle mae integreiddio llawn yn arferol a cheir tynnu'n ôl am resymau penodol, dim ond pan gytunir gan y dosbarthiadau prif ffrwd a'r Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol.

4.3 Derbynnir y gall fod angen grwpiau addysgu arbennig mewn rhai amgylchiadau i ddarparu profiadau addysgol priodol lle gall disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol brofi llwyddiant.

4.4 Mae'r Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol yr AALL yn gweithio gyda'r ysgol, gan ddefnyddio dull Cynllunio Person-ganolog, er lles gorau disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol yn:-

➢ Rhoi cyngor ar addasrwydd deunyddiau, dulliau a gwahaniaethu.

➢ Cynghori ar anghenion arbennig disgyblion unigol trwy gyfrwng Cynlluniau Datblygu Unigol a'u Proffiliau Un Dudalen.

➢ Adnabod, hysbysu a chydlynu amcanion dysgu uniongyrchol a thymor hwy ar gyfer yr holl blant ar y Gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol, ar draws y cwricwlwm.

➢ Dyrannu adnoddau sydd ar gael i ddarparu cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion yn y dosbarth

**5 DYRANNU ADNODDAU**

5.1

Mae'r Cydlynydd ADY yn gyfrifol am reolaeth weithredol yr adnoddau penodedig a chytunedig ar gyfer y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgol.

5.2

Cynhelir Archwiliad Anghenion Ychwanegol yn flynyddol a phennir cyllid ar gyfer darpariaeth anghenion ychwanegol gan dystiolaeth a chanlyniad yr archwiliad hwn.

5.3

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am hysbysu'r corff llywodraethu o sut y defnyddiwyd y cyllid i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol.

**6 TREFNIADAU AR GYFER DISGYBLION SYDD AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

6.1

Gweithdrefn Derbyn

Polisi'r ysgol yw derbyn, heb wahaniaethu na chwota, pob disgybl sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn unol â'r drefn derbyn arferol. Mae'r ysgol yn croesawu ceisiadau cynnar gan rieni a gofalwyr plant ag anabledd corfforol neu arall a gwneir pob ymdrech i drefnu darpariaeth briodol. Mae'r ysgol yn croesawu disgyblion sydd angen rhaglen anwytho raddol ac yn falch o drefnu ymweliadau ar gyfer rhieni a gofalwyr a phlant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.

6.2

Asesu ac Adnabod Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae canfod angen yn gynnar yn hanfodol. Bydd y Cydlynydd ADY yn seilio'r asesiad a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar:-

➢asesiadau addysgol blaenorol o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo

- Cynhelir adolygiadau trosglwyddo yn Nhymor yr Hydref ym Mlwyddyn 6 ac os oes angen cyfarfodydd pellach cânt eu galw gan yr ALl.

➢ Gweinyddir sgrinio pob disgybl gan ddefnyddio profion asesu/diagnostig dan oruchwyliaeth y Cydlynydd ADY.

✓ Mae'r Cydlynydd ADY yn hysbysu'r rhieni/gofalwyr cyn gynted â phosibl i'w hysbysu am bryderon a chael eu cymorth gweithredol a'u cyfranogiad.

6.3

Yn ystod gyrfa ysgol disgybl gall problemau amrywiol godi. Mae pob athro yn gyfrifol am adnabod anawsterau y gall disgybl eu profi. Dylai unrhyw aelod o staff sy'n pryderu gysylltu â'r Cydlynydd ADY er mwyn gwneud trefniadau pellach.

**YMATEB**

7.1

Defnyddir profion safonol fel proses sgrinio a bydd disgyblion sydd yn dangos sgôr isel yn cael eu rhoi mewn i grwpiau cymorth am gyfnod byr.

7.2

Yn unol â Cod Ymarfer Cymru, bydd yr ysgol yn ymateb i anghenion dysgu ychwanegol plant ar y lefel briodol:

➢ Gweithredu Ysgol: plant mewn grwpiau cymorth am gyfnod i weld os oes cynnydd. Bydd staff yr ysgol yn trafod hyn gyda'r rhieni

- Os nad oes cynnydd, angen i'r staff feddwl a oes ADY ar y disgybl, a dilyn y proses statudol

**MYNEDIAD I'R CWRICWLWM**

8.1

Mae gan bob plentyn hawl i gwricwlwm eang a chytbwys, sydd wedi'i wahaniaethu er mwyn galluogi plant i:

➢ Deall perthnasedd a phwrpas gweithgareddau dysgu

➢ Profiad lefelau o ddealltwriaeth a chyfraddau cynnydd sy'n dod â theimladau o lwyddiant a chyflawniad.

8.2

Mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae gan wersi amcanion dysgu clir; gwahaniaethir gwaith yn briodol a defnyddir asesu i lywio'r cam nesaf o ddysgu.

8.3

Cynhwysiad Addysgol.

Trwy ddarpariaeth gwricwlaidd briodol mae'r ysgol yn parchu'r ffaith bod:-

➢ plant sydd ag anghenion a dyheadau addysgol ac ymddygiadol gwahanol

➢ Angen gwahanol strategaethau ar gyfer dysgu

➢ Angen Caffael, cymhathu a chyfathrebu gwybodaeth ar gyfraddau gwahanol.

➢ Angen ystod o wahanol ddulliau a phrofiadau addysgu.

Mae athrawon Ysgol y Dderwen yn ymateb i anghenion plant trwy:-

➢ Darparu cefnogaeth i blant sydd angen cymorth gyda chyfathrebu, iaith a llythrennedd.

➢ Gynllunio i ddatblygu dealltwriaeth plant trwy ddefnyddio'r holl synhwyrau a phrofiadau sydd ar gael.

➢ Gynllunio ar gyfer cyfranogiad llawn plant mewn gweithgareddau dysgu a chorfforol.

➢ Helpu plant i reoli eu hymddygiad ac i gymryd rhan mewn dysgu yn effeithiol ac yn ddiogel.

➢ Helpu unigolion i reoli eu hemosiynau, yn enwedig trawma neu straen.

8.4

Cynlluniau Dysgu Unigol (CDU) o dan yr Agenda Trawsnewid ADY newydd:

Mae Cynlluniau Dysgu Unigol (CDU) camau bach ac sy'n cynnwys strategaethau proses, yn nodwedd arwyddocaol yn y ddarpariaeth a wneir yn yr ysgol. Mae gan bob disgybl ar y Gofrestr Anghenion Ychwanegol I.P. neu CDU. Mae'r broses o ysgrifennu ac adolygu CDUau yn Ysgol y Dderwen fel a ganlyn:-

➢ Asesu ac adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

➢ Casglu gwybodaeth am gryfderau a gwendidau disgyblion.

➢ Darparu gwybodaeth i'r athrawon er mwyn iddynt allu dyfeisio targedau tymor byr sy'n benodol i'r pwnc.

➢ Trafod y cynnwys gyda'r rhieni a chael mewnbwn wrthynt hefyd.

**PARTNERIAETH O FEWN A TU HWNT I'R YSGOL**

9.1

**DATBLYGU A GWERTHUSO STAFF**

Anogir pob aelod o staff i fynychu cyrsiau sy'n eu helpu i ennill y medrau sydd eu hangen i weithio gyda disgyblion ADY. Rhan o rôl y Cydlynydd ADY mewn HMS yn yr ysgol yw datblygu ymwybyddiaeth o adnoddau a gweithdrefnau addysgu ymarferol i'w defnyddio gyda disgyblion ADY. Fel rhan arferol o ddatblygiad staff, bydd gofynion HMS mewn ADY yn cael eu hasesu. Bydd anghenion HMS yr ysgol yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Ysgol.

9.2

CYSYLLTIADAU GYDAG ASIANTAETHAU, SEFYDLIADAU A GWASANAETHAU CEFNOGOL ERAILL

Mae'r ysgol yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae gwasanaethau cymorth allanol yn ei wneud i gynorthwyo adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag ADY.

Pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, bydd cydweithwyr o'r gwasanaethau cymorth canlynol yn ymwneud â disgyblion ADY:

➢ Seicolegwyr addysg

➢ Athrawon ymgynghorol

➢ Swyddogion meddygol

➢ Therapyddion Iaith a Lleferydd

➢ Ffisiotherapyddion

➢ Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol

➢ Gwasanaeth Nam Clyw

➢ Gwasanaeth nam ar y golwg

➢ Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad

➢ Gwasanaeth Addysg ar gyfer Anabledd Corfforol (ESPD)

Yn ogystal, mae cysylltiadau pwysig yn eu lle gyda'r sefydliadau canlynol:

➢ Yr ALI

➢ Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd

➢ Lles Addysg

➢ Gwasanaethau Cymdeithasol

➢ SNAP

9.3

PARTNERIAETH GYDA RHIENI

Mae Ysgol y Dderwen yn credu'n gryf mewn datblygu partneriaeth gref gyda rhieni ac y bydd hyn yn galluogi plant a phobl ifanc ag ADY i gyflawni eu potensial. Mae'r ysgol yn cydnabod bod gan rieni drosolwg unigryw o anghenion y plentyn a'r ffordd orau i'w cefnogi, a bod hyn yn rhoi rôl allweddol iddynt yn y bartneriaeth.

'Mae gan rieni wybodaeth allweddol ac mae ganddynt rôl hollbwysig i'w chwarae yn addysg eu plant. Mae ganddynt gryfderau, gwybodaeth a phrofiad unigryw i gyfrannu at y farn gyffredin am anghenion plentyn a'r ffordd orau o'u cefnogi' (CoP 2.2)

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod manylion y gwasanaeth partneriaeth rhieni sydd ar gael drwy'r ALl ar gael i holl rieni disgyblion ag ADY. Mae'r Cod Ymarfer AAA yn amlinellu:

Dylai AALlau weithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol a rhieni, yn ogystal â'r gwasanaeth partneriaeth rhieni …. sicrhau bod rhieni'n cael cyngor cynhwysfawr, niwtral, ffeithiol a phriodol' (CoP 2.14)

9.4

LLAIS Y PLENTYN

Mae cyfranogiad disgyblion wrth galon yr Agenda Trawsnewid ADY a Chod ADY Cymru 2021 ac mae'n sail i'r Dulliau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a ddefnyddir ar draws pob ysgol:

Dylai ysgolion ddangos sensitifrwydd, gonestrwydd a pharch at ei gilydd wrth annog disgyblion i rannu pryderon, trafod strategaethau a gweld eu hunain yn bartneriaid cyfartal â'r ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Dylai pob plentyn fod yn rhan o wneud penderfyniadau lle bo modd o ddechrau eu haddysg. Dylai'r ffyrdd y caiff plant eu hannog i gymryd rhan adlewyrchu aeddfedrwydd esblygol y plentyn. Mae cymryd rhan mewn addysg yn broses a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob plentyn gael y cyfle i wneud dewisiadau a deall bod ei farn yn bwysig. Bydd plant ifanc hyderus, sy'n gwybod y bydd eu barn yn cael ei gwerthfawrogi ac sy'n gallu ymarfer gwneud dewisiadau, yn ddisgyblion mwy sicr ac effeithiol yn ystod eu blynyddoedd ysgol. Yn Ysgol y Dderwen rydym yn annog disgyblion ag ADY i gymryd rhan yn eu dysgu trwy osod targedau personol.

9.5

CYSYLLTIADAU GYDAG YSGOLION ERAILL A TREFNIADAU TROSGLWYDDO AR GYFER DISGYBLION ADY

Mae'r ysgolion cynradd partner yn gwahodd y Cydlynydd ADY i fynychu adolygiadau Blwyddyn 6. Trosglwyddir gwybodaeth am bob plentyn Bl 6 yn nhymor yr Haf.

10 **TREFN GWYNO**

Amlinellir trefn gwyno'r ysgol ym mhrosbectws yr ysgol. Mae Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg 2018 a Chod ADY Cymru 2021 yn amlinellu mesurau ychwanegol y mae'n rhaid i'r AALl eu sefydlu i atal a datrys anghytundebau. Bydd y rhain yn cael eu hesbonio i rieni os oes angen.

11 **CYFRANOGIAD DISGYBLION**

11.1

Anogir pob disgybl i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau i ddiwallu eu cymorth anghenion dysgu ychwanegol. I hwyluso hyn, mae staff yr Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi ymrwymo i:-

➢ Canfod barn a dymuniadau'r disgybl am ei addysg yn awr ac yn y dyfodol.

➢ Trafod yr holl weithdrefnau asesu perthnasol gyda'r disgybl.

➢ Arwain ac annog disgyblion gyda'u gwaith.

➢ Rhoi cyfleoedd ar gyfer sylwadau ac adborth gan y disgybl a all lywio ei gofnod ysgol.

11.2

Gall cynnwys disgyblion wrth olrhain eu perfformiad eu hunain gyfrannu at wella eu hyder a'u hunan-barch yn fawr.

12 **CADW COFNODION/ MONITRO**

12.1

Mae'r Cydlynydd ADY yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:-

➢ Mae ffeiliau unigol disgyblion yn cael ei chadw ar rwydwaith yr ysgol ar gyfer pob disgybl sydd wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol.

➢ Mae gan yr holl staff addysgu fynediad at ffeiliau gan gynnwys datganiadau.

➢ Cedwir manylion am gymorth ychwanegol ar system Canolfan Athrawon y Sir

➢ Mae cynnydd pob plentyn yn cael ei fonitro a'i gofnodi trwy asesiad parhaus a phrofion ffurfiol ddwywaith y flwyddyn.

➢ Rhoddir gwybod i rieni am unrhyw newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth eu plentyn.

13 **AMGYLCHEDD YR YSGOL**

Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn i ofynion mynediad agored a chynhwysol unigolion. Ceir mynediad cadeiriau olwyn i'r rhan fwyaf o'r ardaloedd addysgu. Mae toiledau ar gael a cheir cyfleusterau priodol ar draws yr ysgol.

14 **GWERTHUSO AC ADOLYGU'R POLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

14.1

Mae'r cyfrifoldeb am arfarnu effeithiolrwydd Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol yn rheolaidd yn gorwedd yn gyntaf gyda'r Cydlynydd ADY.

14.2

Yn ystod cyfarfodydd adrannol rheolaidd mae'r Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei drafod a'i werthuso gan:-

➢ Diweddaru'r Gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol.

➢ Trafod gweithrediad y Polisi.

➢ Monitro effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Adrannol.

➢ Adolygu cyfathrebu ag adrannau eraill.

➢ Adolygu CDU

➢ Nodi sylwadau rhieni a gofalwyr.

➢ Ymateb i arsylwadau staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu.

➢ Adolygu cyswllt ag ysgolion eraill a phartneriaid aml-asiantaeth.

➢ Gwerthusiad o farn disgyblion am y ddarpariaeth o fewn yr adran.

14.3

Mae'r Pennaeth a Chorff Llywodraethu'r Ysgol yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol ac yn ystyried unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol.